



«Name» - «TitlePosition»
«Organisation»
«Add1»
«Add2»«Add3»«Add4»
«Add5»
«Postcode»

26 Ebrill 2017

Annwyl «u_name»

Swyddfa Bost® Clunderwen
Y Swyddfa Bost, Clunderwen, SA66 7NA

Gwasanaeth penderfynu ailagor

Rwy'n ysgrifennu i gadarnhau ein bod wedi adfer gwasanaethau Swyddfa'r Post i gymuned Clunderwen trwy gyflwyno gwasanaeth symudol sy'n cael ei redeg gan y Postfeistr o Swyddfa Bost Cilgeti. Dechreuodd y gwasanaeth ddydd Mercher 15 Chwefror 2017.

Ni chawsom unrhyw sylwadau gan gwsmeriaid na chynrychiolwyr lleol yn ystod y cyfnod o ymgynghoriad cyhoeddus. Rwyf wedi ystyried f'argymhelliad gwreiddiol yn ofalus ac rwy'n hyderus taw darparu gwasanaeth symudol yn Nhafarn Newydd, SA66 7NQ yw'r penderfyniad cywir er mwyn adfer gwasanaeth i'r gymuned wledig yng Nghlunderwen.

Bydd posteri'n cael eu harddangos yn lleol nawr i roi gwybod i gwsmeriaid am y penderfyniad hwn. Mae manylion pellach am y gwasanaeth newydd ar gael ar ddiwedd y llythyr hwn.

Mae copi o'r llythyr hwn ar gael hefyd ar ein gwefan yn postofficeviews.co.uk. Wrth gyrraedd y wefan, gofynnir ichi gofnodi'r cod ar gyfer y gangen hon: 26261399

Diolch i chi am ystyried ein cynllun.

Yr eiddoch yn gywir

Sarah Cottrell

Sarah Cottrell
Rheolwr Ardal Gweithrediadau'r Rhwydwaith

Sut i gysylltu â ni:

postofficeviews.co.uk
comments@postoffice.co.uk
Llinell Gymorth I Gwsmeriaid:
03457 22 33 44
Ffôn Testun: 03457 22 33 55

FREEPOST Your Comments
Sylwch, os gwelwch yn dda, mai hwn yw'r cyfeiriad llawn i'w ddefnyddio ac nad oes angen manylion cyfeiriad eraill.

Rydym wedi cyhoeddi ein cynllun terfynol ar-lein. I'w weld, sganiwch yma.

Os nad oes gennych sganiwr cod QR ar eich ffôn, gallwch gael hyd i un yn eich storfa ap.



Cafodd y broses gyfathrebu hon ei chytuno â chorff gwarchod statudol annibynnol y defnyddwyr, sef y Cyngor ar Bopeth a Chyngor ar Bopeth yr Alban ym Mhrydain, a Chyngor y Defnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon. Mae'n cael ei gweithredu yn unol â'n Cod Ymarfer ar gyfer newidiadau i rwydwaith Swyddfa'r Post, a gytunwyd â nhw. Os hoffech gael copïau o'r Cod, maent ar gael mewn canghennau, neu wrth gysylltu â ni neu wrth ymweld â'n gwefan yn: www.postofficeviews. Os ydych o'r farn nad ydym wedi dilyn y broses yn gywir ac yn dymuno gwneud cwyn, byddwch cystal ag anfon llythyr neu ebost atom wrth ddefnyddio'r manylion cyswllt yn ein poster i a llythyrau ac esbonio pam. Byddwn yn ystyried eich cwyn ac yn rhoi ateb ichi cyn gynted â phosibl. Byddwn yn rhoi'r manau cyswllt perthnasol ar gyfer y corff gwarchod defnyddwyr i chi. Felly, os ydych yn dal yn anfodlon ar ôl derbyn ein hymateb, gallwch ofyn iddynt am eu cymorth.

I gael yr wybodaeth hon mewn fformat gwahanol, er enghraifft, print bras, sain neu Braille, byddwch cystal â chysylltu â'r Llinell Gymorth i Gwsmeriaid ar 03457 22 33 44 neu Ffôn Testun 03457 22 33 55.

Manylion am y gwasanaeth newydd:

<p>Gwasanaeth Symudol Clunderwen Y tu allan i Dafarn Newydd Clunderwen Sir Benfro SA66 7NQ</p> <p>Oriau agor</p> <table border="1"><tr><td>Mercher</td><td>14:15 – 15:15</td></tr></table>	Mercher	14:15 – 15:15	<p><u>Gwasanaethau</u> Bydd yr un ystod o wasanaethau yn dal ar gael.</p> <p><u>Mynediad a chyfleusterau</u> Mae yna ris i mewn i'r Cerbyd Symudol, ond mae tinbren electronig ar gael ar gyfer defnyddwyr cadair olwyn neu bobl ag anableddau.</p> <p><u>Parcio</u> Bydd parcio ar gael yn agos i'r Cerbyd Symudol</p>
Mercher	14:15 – 15:15		